**PWYLLGOR:** PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG
**DYDDIAD:** 26 IONAWR 2009
**TEITL:** AMODAU TRWYDDED – CERBYDAU *RICKSHAW*
**PWRPAS:** AM BENDERFYNIAD
**AWDUR:** PENNAETH GWEINYDDOL A GWARCHOD Y CYHOEDD

## CEFNDIR

Derbyniwyd cais yn wreiddiol gan ŵr a gwraig sy'n dymuno sefydlu busnes o gludo unigolion mewn *rickshaw* yn ardal Aber Mawddach. Rydym hefyd wedi derbyn ymholiadau cychwynnol yn flaenorol o ardal Caernarfon, ac rydym o'r farn bod posibilrwydd i unigolion gynnal busnesau o'r math pe dymunent.

Oherwydd bod hyn yn ffurf o gerbyd hacni neu hurio preifat, mae angen polisïau penodol ar gyfer y math yma o gerbydau.

## POLISI

Gweler o'r polisi sy'n atodol, mae'n debyg i'r polisïau yn ymwneud a cerbydau mecanyddol, ond bod peth newidiadau oherwydd natur y cerbyd.

Yn ychwanegol i'r uchod, bydd gofyn i bob gyrrwr gael ei drwyddedu fel unigolyn cymwys. Argymhellir bod y gofynion yn cyd-fynd ag unrhyw amodau gyrrwr cerbyd hacni neu hurio preifat, sef archwiliad meddygol o pob 3 blynedd, neu lai yn dibynnu ar oedran; bod y gyrrwr yn cyflwyno adroddiad hanes troseddol berthnasol; a bod y ffi perthnasol yn cael eu talu. Eto, argymhellir bod y ffioedd yn cyd-fynd â ffioedd hacni a hurio preifat.

## TRWYDDED

Buasai trwydded yn aros mewn bodolaeth am 12 mis o'r diwrnod pryd bu ei ryddhau, a bydd angen eu hadnewyddu pob 12 mis.

## FFIOEDD

Argymhellir y ffioedd canlynol ar gyfer unrhyw gerbyd a gyrrwr sydd am eu trwyddedu.

### Ffi blynyddol

CERBYD - £40.00
PLÂT - £10.50
GYRRWR - £59.00

## ARGYMHELLIAD

Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r adroddiad a'r atodiadau ynghlwm.